**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 15 Mehefin 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | E W Fitzgerald | D W Helliwell |
| P K Jones | W G Lewis | S Pritchard |
| W G Thomas | T M White | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | L R Jones | J W Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C E Lloyd a/ac G J Tanner
Aelodau Cyfetholedig Statudol:
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: C A Holley a/ac S M Jones

---

## 4 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Peter Jones – Cofnod Rhif 9 – Aelod o grŵp gorchwyl 'Gweithio gyda Natur' Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

Y Cynghorydd Sam Pritchard – Cofnod Rhif 9 – Aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe – Grŵp Partneriaeth

## 5 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

**6 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021 a 20 Mai 2021 fel cofnodion cywir.

**7 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**8 Rôl Pwyllgor y Rhaglen Graffu.**

Fel cyfarfod cyntaf blwyddyn ddinesig 2021/22, cyflwynodd Arweinydd y Tîm Craffu yr adroddiad ar 'Rôl Pwyllgor y Rhaglen Graffu'. Roedd yr adroddiad hefyd yn gwahodd y Pwyllgor i adnewyddu penodiad aelodau cyfetholedig y Pwyllgorau.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) Adnewyddir cyfetholiadau cynullwyr y Paneli Perfformiad Craffu i'r Pwyllgor.
2) Adnewyddir cyfetholiadau'r sefydliadau partner i alluogi cynrychiolwyr i gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgor i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**9 Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.**

Roedd cynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Fforwm Amgylcheddol Abertawe a Chyngor Abertawe yn bresennol i graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Mae'r pwyllgor yn craffu ar berfformiad y BGC a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud. Canolbwyntiodd y sesiwn ar ddeall rôl Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, fel Aelodau Statudol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, a'r cynnydd o ran cyflawni amcanion lles y maent yn arwain arnynt.

Yn dilyn yr adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd, roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar:-

- Effaith/gwerth ychwanegol y BGC – clywyd am rwydweithiau/cysylltiadau a grëwyd, gwaith Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel ar y Stryd Fawr, diogelu, radicaleiddio, hiliaeth a chyllid a gyflawnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi'r gwaith o wella'r amgylchedd gwyrdd
- Y nifer sy'n manteisio ar waith partner/cydweithio ar faterion allweddol – darparwyd enghreifftiau o weithio gyda phartneriaid ynghylch troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau
- Llwyddiant gweithio gyda phartneriaid ar danau glaswellt bwriadol
- Materion yn ymwneud â llywodraethu'r BGC, diffyg adnoddau, diffyg cyllid a'r gwersi a ddysgwyd.
- Cymharu â Byrddau Cynllunio Rhanbarthol – gwahanol safbwyntiau ariannol
- Camddefnyddio Sylweddau – roedd y Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol a'r Bwrdd Cynllunio Ardal yn edrych ar hyn - roedd y Bwrdd Cynllunio Ardal yn arwain ar

ddatblygu'r Model Iechyd Cyhoeddus Integredig ac roedd yn adrodd yn ôl i'r BGC.

- Datblygu Dangosyddion Perfformiad ar gyfer y BGC a gweld cynlluniau gweithredu i helpu i fonitro a mesur cynnydd – nodwyd na fyddai pob agwedd ar waith yn fesuradwy, e.e. y materion hynny sy'n canolbwyntio ar newid hirdymor
- Lobïo am adnoddau a chyllid ychwanegol
- BGCau rhanbarthol a straen ar y sefydliadau hynny sy'n mynychu nifer o BGCau – roedd yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal y BGCau lleol ar hyn o bryd
- Cyfathrebu rhwng y BGC, y Gweithgorau a'r Cydbwyllgor
- Effaith pandemig COVID-19 ar waith y BGC a chyllid
- Trefnwyd i'r BGC adolygu eu ffocws yn y cyfarfod nesaf yn dilyn pandemig COVID-19

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol. Edrychodd ymlaen at y sesiwn nesaf ar y BGC a datblygu gwell gwybodaeth am berfformiad o amgylch gwaith y BGC gan gynnwys dangos bod amcanion lles penodol yn cael eu cyflawni drwy gynlluniau gweithredu.

## 10 Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith.

Cyflwynodd y Cadeirydd/Arweinydd y Tîm Craffu 'Adroddiadau Craffu – Adroddiad Effaith', gan dynnu sylw at gyflawniadau craffu yn ystod 2020/21.

**Penderfynwyd** bod yr adroddiad yn mynd ymlaen i'r cyngor

## 11 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.

Nododd y Pwyllgor benodiad Cynullwyr y Panel Perfformiad gan y Paneli perthnasol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/22 hyd yn hyn sef:

- Y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - ailbenodwyd y Cynghorydd Paxton Hood-Williams
- Gwasanaethau i Oedolion - ailbenodwyd y Cynghorydd Susan Jones
- Gwella Gwasanaethau a Chyllid – ailbenodwyd y Cynghorydd Chris Holley

**Penderfynwyd:** -

1) Tynnu'r Cynghorydd Mark Child oddi ar unrhyw baneli/gweithgorau, gan ei fod wedi dod yn aelod gweithredol.
2) Ychwanegu'r Cynghorydd Oliver James a'r Cynghorydd Hannah Lawson at Banel Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol

## 12 Rhaglen Waith Craffu.

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad am Raglen Waith Craffu 2020/21 i'w ystyried.

Trefnwyd cynnal cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 13 Gorffennaf 2021. Y brif eitem a restrwyd oedd trafodaeth ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Pheirianneg ac Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Isadeiledd gydag Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 13 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Lythyrau Craffu' er gwybodaeth.

Roedd Cynullydd y Gweithgor Craffu ar gyfer cynhwysiant digidol, y Cynghorydd Lesley Walton, yn bresennol i grynhoi'r canfyddiadau. Tynnodd sylw at y gwaith a wnaed gan Swyddogion er gwaethaf pandemig COVID-19 a oedd, er enghraifft, yn parhau i ddarparu menter newydd 'Sgwrsfot'. Byddai'r Gweithgor yn parhau i gefnogi staff gyda'r datblygiadau enfawr a'r newidiadau parhaus mewn technoleg ac yn edrych ar y Strategaeth Cynhwysiad Digidol yn ogystal ag ailwampio gwefan y cyngor. Teimlai'r Gweithgor fod angen goruchwylio'r gwaith ar Gynhwysiad Digidol ymhellach wrth i bethau ddatblygu, efallai'n flynyddol.

Cyfeiriodd Cynullydd y Gweithgor Craffu ar gyfer y Gweithlu, y Cynghorydd Cyril Anderson, at lythyr y Gweithgor at Aelodau'r Cabinet a'r ymateb, yn dilyn cyfarfod y Gweithgor. Tynnodd sylw at waith staff yn ystod pandemig COVID-19. Yn dilyn y cyfyngiadau symud cyntaf roedd staff wedi addasu'n well yn ystod yr ail gyfyngiadau symud, gyda gwelliannau i gefnogaeth gan y cyngor. Nodwyd y byddai arolwg staff pellach yn cael ei ddosbarthu yn ystod y 6 mis nesaf i holi staff ynghylch gweithio gartref nawr eu bod yn fwy profiadol/wedi dod yn fwy cyfarwydd ag ef. Roedd y Gweithgor yn awyddus i gyfarfod eto pan oedd canlyniadau'r arolwg yn hysbys.

Diolchodd y ddau Gynullydd i'r staff am eu holl waith caled wrth helpu'r cyngor drwy gyfnod anodd iawn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at rai materion yn ymwneud â defnyddio gweithwyr asiantaeth, a drafodwyd yn ddiweddar yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a dywedodd y byddai'n trafod ffordd ymlaen mewn perthynas â thrafodaethau yn y dyfodol gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan osgoi unrhyw ddyblygu rhwng y Pwyllgorau perthnasol.

**Penderfynwyd** nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 14 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

**Nodwyd** dyddiad ac amser cyfarfod nesaf y panel/gweithgor.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.15 pm

**Cadeirydd**